OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 842 (Cy.77)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) (Diwygio) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *21 Mawrth 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *22 Mawrth 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 121(5) a 122(3)(b) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enwîr Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) (Diwygio) 2006.

(2) Daŵr Gorchymyn hwn i rym ar 22 Mawrth 2006 ac maeên gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005(**2**)wedîi ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (2) o erthygl 5 (darpariaethau trosiannol) ôr Gorchymyn yn llêr geiriau "paragraff (1)" rhodder y geiriau "erthygl 4 a pharagraff (1)".

(**1**) 2004 p.5.
(**2**) O.S. 2005/2722 (Cy.193) (C.110).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**) 21 Mawrth 2006

*D. Elis-Thomas*
Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yŵr nodyn hwn yn rhan ôr Gorchymyn)*

Mae Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("y Ddeddf") yn gymwys o ran Cymru ac maên sefydlu system o gynlluniau datblygu lleol (CDLlau) yn llêr cynlluniau datblygu unedol sŷn ofynnol o dan Bennod 1 o Ran II o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990").

Dygwyd Rhan 6 ôr Ddeddf i rym gan Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1229 (Cy.87) (C.56)) ("Gorchymyn Rhif 3") a Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/2722 (Cy.193) (C.110)) ("Gorchymyn Rhif 4"). Maêr ddau Orchymyn hyn yn cynnwys trefniadau trosiannol i alluogi awdurdodau cynllunio penodol i lunio cynlluniau datblygu unedol o dan Ddeddf 1990, yn hytrach na symud yn syth îr system CDLlau a gyflwynir gan y Ddeddf.

Effaith y Gorchymyn hwn yw egluro, er mwyn osgoi amheuaeth, bod y trefniadau trosiannol hyn yn parhau i fod yn gymwys îr awdurdodau cynllunio lleol a restrir yn yr Atodlen i Orchymyn Rhif 4.